Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT
029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT
www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, dyraniadau 2022/23 a gofynion monitro 2021/22

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Gorffennaf 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/25HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 14 Hydref 2022 | |
| **Cyswllt** | Enw: | Jane Johns |
| | E-bost: | jane.johns@hefcw.ac.uk<br>amanda.phillips@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ar gydraddoldeb hiliol, gan gynnwys manylion dyraniad CCAUC o £1m ar gyfer 2022/23 ynghyd â'n disgwyliadau o ran arian cyfatebol. Mae'r cylchlythyr hwn hefyd yn darparu gofynion monitro 2021/22.

If you require this document in an alternative accessible format, please email info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg | This document is also available in Welsh

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ar gydraddoldeb hiliol, manylion dyraniadau 2022/23 ac/neu ein disgwyliadau o ran arian cyfatebol. Mae'r cylchlythyr hefyd yn darparu gofynion monitro 2021/22 i gefnogi cydraddoldeb hiliol a mynd i'r afael â materion gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch.

2. Mae llythyr cylch gorchwyl 2022-23 CCAUC (paragraff 15) oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfraniad addysg uwch at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru wrth-hiliol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i addysg uwch weithio tuag at gyflawni nod siarter i ddangos ymrwymiad i gael gwared â hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol ar bob lefel o fewn y sector.

3. Un o'r mecanweithiau y gall prifysgolion eu defnyddio'n sail ar gyfer gweithredu ynghylch cydraddoldeb hiliol, a mynd i'r afael â materion gwrth-hiliaeth, yw'r siarter cydraddoldeb hiliol. Nid yw ennill nod siarter yn ddiben ynddo'i hun.

4. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer addysg uwch. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach lle nad ydym wedi rhoi digon o sylw i unrhyw agwedd ar Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru.

5. Drwy gylchlythyr W22/05HE gwnaethom ddyrannu £500k i brifysgolion i'w fuddsoddi i gryfhau eu hymrwymiadau at gydraddoldeb hiliol yn 2021/22. Gwnaethom gadarnhau £1m o gyllid yn flynyddol yn 2022/23. 2023/24 a 2024/25 yn amodol ar gyllidebau CCAUC (ac ar y trosglwyddiad i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ac ar dderbyn ymrwymiadau boddhaol gan brifysgolion. Cynigiwyd dyraniadau 2022/23 ar yr amod bod prifysgolion yn canfod arian cyfatebol i gyd-fynd â'n dyraniadau.

6. Yng nghylchlythyr W22/05HE ymgynghorwyd ar agweddau ar y cyllid hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion a'r ystyriaeth a roddwyd gennym iddynt yn **Atodiad A**.

## Pwrpas y cyllid ychwanegol ar gyfer cydraddoldeb hiliol

7. Nodwyd pwrpas y cyllid cydraddoldeb hiliol yn ein cylchlythyr ymgynghori W22/05HE (paragraff 6). Fel y nodwyd, mae pwrpas y cyllid hwn yn ehangach na chyflawni nod siarter. Diben y cyllid yw atal anghydraddoldeb, mynd i'r afael â materion gwrth-hiliaeth, cefnogi newid diwylliant a chyfrannu at gyflawni cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

8. Er bod y cyllid hwn wedi'i fframio yn nhermau hil, dylai prifysgolion ei ddefnyddio i weithredu ar faterion sy'n croestorri â hil, gan gynnwys aflonyddwch, trais a chamdriniaeth ar sail hunaniaeth, a hil, crefydd a chred, ymhlith materion eraill. Mae Prifysgolion y DU wedi cyhoeddi dau bapur briffio ar grefydd a chred y dylid eu defnyddio i oleuo ystyriaethau cydraddoldeb hiliol: Tackling antisemitism: a practical guide for universities (Mehefin 2021) a Tackling Islamophobia and anti-Muslim hatred: practical guidance for universities (Rhagfyr 2021). Mae'r papurau briffio hyn yn rhan o'i fframwaith newid diwylliant ehangach.

**Dyraniadau 2022/23 ac amodau'r cyllid**

9. Yn 2022/23, mae dyraniadau'r prifysgolion:
   i. yn cynnwys isafswm cyllido o £50k ar gyfer dyraniad CCAUC, ond ni cheir isafswm cyllido ar gyfer y £1m o arian cyfatebol sefydliadol;
   ii. yn defnyddio data myfyrwyr 2020/21 HESA sy'n seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA, wedi'i ostwng i nifer yr unigolion, hy, os bydd myfyriwr wedi cofrestru ar fwy nag un cwrs ni chaiff ond ei gyfrif unwaith;
   iii. yn defnyddio data myfyrwyr sy'n cynnwys yr holl gorff o fyfyrwyr: pob modd, lefel, domisil;
   iv. yn seiliedig ar ddata HESA wedi'u dilysu (ar gyfer 2022/23, rydym yn defnyddio'r un data ag a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer dyraniadau 2021/22. Ar gyfer dyraniadau yn y dyfodol byddwn yn diweddaru data HESA yn flynyddol ac yn gofyn i brifysgolion ddilysu'r data);
   v. yn ôl yr arfer, mae data myfyrwyr y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama wedi'u cynnwys gyda data a dyraniad Prifysgol De Cymru;
   vi. yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, yn unol â'r amodau cyllido isod.

10. Dyma'r amodau cyllido ar gyfer 2022/23:
    i. cynigir dyraniad CCAUC o 2022/23 ymlaen ar yr amod bod prifysgolion yn ymrwymo i sicrhau arian cyfatebol yn 2022/23, 2023/24 a 2024/25.
    ii. cynigir dyraniadau o 2022/23 ymlaen ar yr amod bod pob sefydliad yn parhau i fod yn aelodau o siarter cydraddoldeb hiliol;
    iii. cynigir dyraniadau CCAUC ar yr amod bod prifysgolion yn dangos eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i gyrraedd nod siarter erbyn 2024/25.
    iv. rydym yn cadw'r hawl i ddal cyllid yn ôl, neu ei adfachu, gan gynnwys am y rhesymau canlynol: os nad yw'r cyllid wedi'i wario'n llawn; os nad yw'r cyllid wedi'i wario yn y flwyddyn academaidd y'i dyrannwyd ar ei chyfer; os na fodlonwyd amodau cyllido eraill; os nad ydym wedi derbyn adroddiadau llawn a boddhaol; os na ddefnyddiwyd cyllid i'r dibenion a fwriadwyd;

11. Dyma ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio arian cyfatebol:
    i. ni ddylai dyraniad CCAUC achosi unrhyw ostyngiad i adnoddau presennol prifysgolion ar gyfer datblygiadau cydraddoldeb hiliol, gan gynnwys eu hymrwymiad i gyrraedd y siarter, cyn dyraniad CCAUC ym mis Ebrill 2022;
    ii. bod prifysgolion yn ymrwymo adnoddau ychwanegol i gefnogi cydraddoldeb hiliol, yn ychwanegol at gyfanswm dyraniad CCAUC o £1m.
    iii. os bydd unrhyw weithgareddau neu wasanaethau cydraddoldeb hiliol presennol yn cael eu cyllido drwy gynllun mynediad a ffioedd neu ffynonellau eraill, gellir defnyddio arian cyfatebol y sefydliad neu CCAUC i gynyddu'r gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i'r brifysgol gyfleu'n glir ym mhob adroddiad ac mewn unrhyw waith monitro cydraddoldeb hiliol, sut ac i ba raddau y mae'r cyllid hwn wedi gwella gweithgareddau a gwasanaethau, a gallai hynny fod yn destun archwiliad gennym ni;

iv. bod yr arian cyfatebol a dyraniad CCAUC yn cyflymu'r cynnydd tuag at ymdrin â materion gwrth-hiliaeth, gwella cydraddoldeb hiliol ac ennill y nod siarter;
v. gellir defnyddio'r arian cyfatebol neu arian CCAUC i dalu costau tanysgrifiadau aelodaeth perthnasol, hyfforddiant wedi'i hwyluso'n allanol neu arbenigedd arall allanol.

12. Dyma ddyraniadau 2022/23:

| **Sefydliad** | **Dyraniad CCAUC 2022/23 (gydag isafswm o £50K) £** | **2022/23 Arian cyfatebol y prifysgolion (dim isafswm) £** | **2022/23 Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 161,558 | 162,080 | 323,638 |
| Prifysgol Aberystwyth | 52,326 | 52,495 | 104,821 |
| Prifysgol Bangor | 68,328 | 68,549 | 136,877 |
| Prifysgol Caerdydd | 233,910 | 234,665 | 468,575 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 103,123 | 103,456 | 206,579 |
| Prifysgol Abertawe | 150,918 | 151,406 | 302,324 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 80,272 | 80,531 | 160,803 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 50,000 | 46,932 | 96,932 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 99,565 | 99,886 | 199,451 |
| **Cyfanswm** | **1,000,000** | **1,000,000** | **2,000,000** |

**Cyflawniadau a Gwaith Monitro**

Cyflawniadau a Gwaith Monitro 2021/22

13. Y cyflawniad yw adroddiad monitro wedi'i gwblhau i roi cyfrif am y dyraniad, a chrynodeb o gynnydd y sefydliad yn erbyn yr argymhellion perthnasol i brifysgolion yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: prifysgolion yn cael eu herio. Gweler **Atodiad B.**

Cyflawniadau a Gwaith Monitro 2022/23

14. Cadarnheir cyflawniadau wedi inni ystyried Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, ond byddant yn cynnwys:
i. Cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol y brifysgol ar gyfer 2022/23, gan gynnwys cynnydd hyd at fis Gorffennaf 2023, a
ii. Datganiad cyllid i roi cyfrif am ddyraniad CCAUC ac arian cyfatebol y sefydliadau. Rydym yn cydnabod y gallai cynllun gweithredu siarter cydraddoldeb hiliol y sefydliad roi cyfrif boddhaol am y rhan fwyaf o’r cyllid hwn a rhoi sicrwydd digonol ynghylch strwythurau rheoli a llywodraethu, cerrig milltir blynyddol, cyflymder y gwaith, y cynnydd a wnaed ac uchelgeisiau. Os na fydd hynny’n ddigonol byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth.

**Dyddiadau cyflwyno gwaith monitro a ffurflenni**

15. Ar gyfer gwaith monitro 2021/22 y dyddiad cyflwyno yw **Dydd Gwener 14 Hydref 2022**.

16. Ar gyfer gwaith monitro 2022/23 y dyddiad cyflwyno yw **Dydd Gwener 13 Hydref 2023**.

17. Ar ôl llenwi'r ffurflen fonitro, dylid ei hanfon yn ôl i amanda.phillips@hefcw.ac.uk

**Asesu effaith ein polisïau**

18. Rydym wedi cynnal asesiad effaith ar ddatblygiadau'r polisi hil, mynediad a llwyddiant. Wrth ddiweddaru'r asesiad effaith rydym wedi cynnwys asesiad o'r fethodoleg ar gyfer cyllid hil, mynediad a llwyddiant er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Rhagor o wybodaeth**

19. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns (jane.johns@hefcw.ac.uk).

**Atodiad A**

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y fethodoleg ariannu a sut y rhoesom ystyriaeth iddynt.**

1. Cawsom ymatebion i'n cwestiynau ymgynghori gan naw o brifysgolion, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, a sylwadau ehangach ynghylch siarter cydraddoldeb hiliol Ymlaen AU oddi wrth yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UPCh). Rydym wedi trefnu i gwrdd â swyddogion yr UPCh i ddeall sut y gallem ystyried ei safbwyntiau wrth ddatblygu polisi. Mae'r UPCh wedi cyhoeddi ei ymateb inni [Ymateb UPCh Cymru i gyllid CCAUC er mwyn cefnogi cydraddoldeb hiliol].

2. Isod ceir ein cwestiynau ymgynghori, crynodeb o'r ymatebion a'r ystyriaeth a roddwyd gennym iddynt.

*Cwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad: A yw'r fethodoleg ar gyfer dyrannu yn deg a thryloyw? Os ddim, esboniwch pam.*

3. Roedd saith prifysgol o'r farn fod y fethodoleg ariannu'n deg a thryloyw. Roedd dwy brifysgol o'r farn y dylid pwysoli'r cyllid o blaid sefydliadau llai lle'r oedd adnoddau'n brin, a holodd un brifysgol a ddefnyddiwyd ei holl ddata wrth wneud y gwaith modelu. Rydym wedi cadarnhau bod y data wedi'u dilysu gan y prifysgolion.

4. Gan fod mwyafrif y prifysgolion o'r farn fod y fethodoleg ariannu'n deg a thryloyw, a bod y model yn cynnwys isafswm o £50k, ni wnaethom addasu'r dyraniadau. Yn nyraniadau 2022/23 ni fydd yn ofynnol i brifysgolion a wnaeth elwa ar isafswm gynnwys isafswm yn eu harian cyfatebol.

*Ail gwestiwn yr ymgynghoriad: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau andwyol yn sgil y dull dyrannu a gynigir? Os felly, eglurwch.*

5. Cadarnhaodd tair prifysgol nad oedd y fethodoleg yn esgor ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Roedd dwy brifysgol heb gytuno nac anghytuno, a gofynnodd un brifysgol am rybudd buan o gyllid 2022/23 er mwyn hwyluso'r gwaith cynllunio a chyllidebu. Cododd dwy brifysgol bwynt ynghylch cyllido sefydliadau llai, fel y nodwyd yng nghwestiwn un uchod. Cododd un brifysgol broblem cyllido yn gysylltiedig â'i strwythur neilltuol ei hun.

6. Gan nad oedd unrhyw gonsensws, nac unrhyw gynnig am ddull cyllido amgen, nid ydym wedi diwygio ein methodoleg.

*Trydydd cwestiwn yr ymgynghoriad: Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ynghylch y fethodoleg ariannu, gan gynnwys a yw'n gyson â'n hymrwymiadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ein nodau a'n ffyrdd o weithio?*

7. Ni roddodd pedair prifysgol unrhyw sylwadau pellach. Cynigiodd rhai prifysgolion awgrymiadau defnyddiol, a gofyn am gadarnhad ynghylch rhai materion, a roddir gennym isod:
   - Holodd un sefydliad ein gofyniad i ddefnyddio cyllid Ebrill i Orffennaf 2022 yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i brifysgolion ddefnyddio'r dyraniad bach hwn cyn mis Gorffennaf i sefydlu cynlluniau, gweithgareddau, gwasanaethau ac

adnoddau ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ddefnyddio cyllid 2022/23 o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Os nad yw prifysgolion wedi gallu defnyddio'r cyllid hwn, rydym yn cadw'r hawl i'w adfachu, neu i ddal cyllid yn ôl.
- Gofynnodd un brifysgol am gadarnhad ynghylch y defnydd o arian cyfatebol. Darperir gwybodaeth gennym am arian cyfatebol yn y cylchlythyr hwn.
- Gofynnodd dau sefydliad i ni a oeddem wedi, neu a allem, roi ystyriaeth i adnoddau ac arbenigedd a fodolai eisoes o fewn y sefydliad, gan gynnwys amrywiaeth staff y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cynnydd tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol, neu amrywiaeth bresennol ymhlith y staff a'r myfyrwyr wrth ddyrannu cyllid. Nid ydym yn glir sut y gallem ffurfio barn dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ynghylch adnoddau presennol prifysgolion fel sail ar gyfer penderfyniadau cyllido. Mae ein methodoleg ariannu yn ystyried pob myfyriwr i gydnabod dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru).
- Nododd dwy brifysgol fod cydraddoldeb hiliol yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

8. *Cwestiynau pedwar i chwech:* Gofynnwyd tri chwestiwn gennym yn gysylltiedig ag effeithiau ar y Gymraeg ac effeithiau cadarnhaol neu negyddol ein cyllid ar y Gymraeg.

9. Ni nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Ystyriai un brifysgol y gallai'r cyllid alluogi gwaith dadansoddi data yn gysylltiedig â myfyrwyr lleiafrifol ethnig sy'n siarad Cymraeg mewn AU.